# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Cyfleoedd o safbwynt cadwyni cyflenwi prosiectau mawr – y diweddaraf

### Diben

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor Adnewyddu'r Economi ynghylch y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cwmnïau'n ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau mawr ac i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i elwa arnynt.

### Cefndir

2. Yn ystod ei gyfarfod ar 5 Hydref bu'r Cyngor Adnewyddu'r Economi yn ystyried dau bapur yn ymwneud â chaffael. Un cam gweithredu o'r drafodaeth honno oedd y dylid paratoi papur byr i'w nodi, ar gyfer y Cyngor, ar y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru ynghylch cymorth i gadwyni cyflenwi.

### Busnes Cymru

3. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu un pwynt cyswllt hollgynhwysol ar gyfer cael mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth eang ynghylch datblygu cadwyni cyflenwi a sicrhau twf busnes yn gyffredinol, gan gynnwys datblygu cyflenwyr a darparu cyngor ynghylch tendro.
4. Mae Busnes Cymru yn gweithio ochr yn ochr â busnesau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau mawr ac i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i elwa arnynt. Mae hynny'n cynnwys cynnig cymorth ymarferol i dendro, megis drwy weithdai 'sut i dendro'. Mae'r gwasanaeth wedi cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi drwy ddarparu gweithdai a digwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau penodol 'Cwrdd â'r Prynwr'. Dyma enghreifftiau diweddar o weithgarwch:

   - **Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol** – Cynorthwyo'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o gontractau fframwaith yn y dyfodol, a chynorthwyo busnesau bach i gyflwyno cynigion yn unigol ac ar y cyd.
   - **Pinewood** – Trefnu a chynnal digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael o ganlyniad i leoliad newydd Pinewood yng Nghaerdydd.
   - **Wylfa Newydd** – Cydweithio'n agos â Horizon Nuclear i gyflawni'r rhaglen parodrwydd busnes, a oedd wedi'i hanelu at fusnesau bach a chanolig lleol a oedd am geisio bod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi ar gyfer prosiect Wylfa Newydd, sy'n werth £12 biliwn.
   - **Cylchffordd Cymru** – Digwyddiad codi ymwybyddiaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig er mwyn tynnu sylw at y contractau mawr a'r cyfleoedd o safbwynt y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â'r gylchffordd rasio bosibl.
   - **Morlyn Llanw Bae Abertawe** – Cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU ac Ystâd y Goron i sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru, drwy gadwyn gyflenwi'r prosiect. Mae Dyfodol Adeiladu Cymru yn cynorthwyo Morlyn Llanw Bae

# Cyngor Adnewyddu'r Economi

Abertawe i roi cyfres o sesiynau ymgysylltu'n gynnar â chontractwyr ar waith er mwyn tynnu sylw at y cyfleoedd posibl i gontractwyr adeiladu lleol.

- **Wynne Construction** – Mae Wynne Construction yn y gogledd wedi ennill contract i adeiladu ysgol newydd. Mae Dyfodol Adeiladu Cymru yn cynorthwyo cadwyn gyflenwi Wynne i roi proses modelu gwybodaeth adeiladu ar waith yn ei rhwydwaith o gyflenwyr er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd sy'n ymwneud â chost y prosiect, ansawdd neu'r gwaith cyflawni.
- **Deuoli'r A465 – Ffordd Blaenau'r Cymoedd** [Adran 3 – Bryn-mawr i Dredegar] – Cynhaliwyd tri digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' yn ystod y cam dylunio a phenodwyd 34 o is-gontractwyr o Gymru a 29 o gyflenwyr o Gymru. Cafodd busnesau o Gymru 84% o gyfanswm y costau adeiladu, a chafodd busnesau yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd 34% ohonynt. Dyma'r prosiect cyntaf gan Lywodraeth Ganolog i gynnwys Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu fel un o ofynion craidd y contract. Darparodd y cynllun dros 5,000 o wythnosau person o hyfforddiant i hyfforddeion a oedd yn newydd-ddyfodiaid.

5. Bu Busnes Cymru hefyd yn gweithio ar y cyd â Gwerth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ddarparu digwyddiad Caffael Cyhoeddus yng Nghymru, a roddodd gyfle i brynwyr a chyflenwyr wella eu gwybodaeth a'u sgiliau ym maes caffael. Trefnodd Busnes Cymru 28 o ddigwyddiadau yn 2015 a fynychwyd gan 1,053 o fusnesau bach a chanolig, a chefnogodd lawer o ddigwyddiadau eraill a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae'r gwasanaeth yn cymryd camau gweithredol i hyrwyddo prosiectau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn y dyfodol i'r gadwyn gyflenwi ehangach.

## GwerthwchiGymru

6. Dyma ffynhonnell wybodaeth a phorth caffael:
   - sy'n helpu busnesau i weld contractau'r sector cyhoeddus a chynnig amdanynt; ac
   - sy'n galluogi prynwyr yn y sector cyhoeddus i hysbysebu a rheoli cyfleoedd i dendro.

7. Bob blwyddyn caiff contractau'r sector cyhoeddus ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, sy'n werth biliynau o bunnoedd, eu hysbysebu drwy GwerthwchiGymru gan ystod eang o sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus. Mae busnesau sy'n cofrestru yn cael gwybod yn awtomatig am gyfleoedd sy'n ymwneud â chontractau newydd, a gallant gynnig am y cyfleoedd hynny drwy'r porth. Mae gwefan GwerthwchiGymru hefyd yn darparu mynediad hawdd i gyngor a gwybodaeth ynghylch caffael er mwyn cynorthwyo'r cwmnïau y mae angen yr help hwnnw arnynt.

8. Mae Busnes Cymru yn cymryd camau gweithredol i hyrwyddo GwerthwchiGymru, ac ers i'w borth newydd gael ei lansio (ym mis Mehefin 2013) mae bron 30,000 o gyflenwyr wedi cofrestru eu manylion ac mae 11,735 o

# Cyngor Adnewyddu'r Economi

gyfleoedd sy'n ymwneud â chontractau wedi'u hysbysu, gyda 63% o'r rheini'n cael eu dyfarnu i fusnesau o Gymru. Mae porth GwerthwchiGymru wedi'i ffurfweddu mewn modd sy'n tynnu sylw at brosiectau mawr yng Nghymru. Er enghraifft, ar hyn o bryd caiff deg o gyfleoedd sy'n ymwneud â chontractau eu hysbysebu ar gyfer prosiect Morlyn Llanw Bae Abertawe. Mae dau gontract sy'n ymwneud â'r Morlyn Llanw, a hysbysebwyd ar GwerthwchiGymru, eisoes wedi'u dyfarnu i fusnesau o Gymru.

**Cyfeiriadur Busnesau Cymru**

9. Mae'r Cyfeiriadur yn rhoi cyfle i fusnesau yng Nghymru hyrwyddo eu nwyddau, eu gwasanaethau a'u cymwysterau i fusnesau eraill ac i ddefnyddwyr. Gall defnyddwyr chwilio am fusnesau yng Nghymru yn ôl eu henw neu drwy gyfleuster chwilio mwy manwl gan ddefnyddio cyfuniad o wybodaeth am y sector, yr is-sector, y rhanbarth neu'r cod post. Newydd gael ei lansio y mae'r cyfleuster, felly dim ond cyfran fach o fusnesau Cymru sydd yn y cyfeiriadur ar hyn o bryd. Bydd cynnwys y Cyfeiriadur a'r defnydd a wneir ohono'n cynyddu yn rhan o weithgareddau hyrwyddo Llywodraeth Cymru.